


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerc@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

20 Chwefror 2017

I Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod
Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambwr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun** nos **LUN, 27 CHWEFROR 2017** am **7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams
Sandra Williams
Clerc y Dref

AGENDA

- 1. CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN**
Derbyn cyflwyniad gan y Sarjant Jonny Hill am y ffigurau troseddau diweddar a'r broses cyfiawnder adferol.
- 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 3. DATGAN BUDDIANNAU**
Datganiadau o fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.
- 4. ADRODDIAD Y MAER**
- 5. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 6. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL DIWETHAF**
Derbyn a chadarnhau bod cofnodion y cyfarfod arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2017 yn gywir.
- 7. MATERION YN CODI**
- 8. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2017 (copi melyn).

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

www.cyngortrefrhuthun.gov.uk / www.ruthintowncouncil.gov.uk

- 9. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2017 (copi gwyrdd).
- 10. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL GAN FENTER IAITH SIR DDINBYCH**
Ystyried rhagor o wybodaeth a gyflwynwyd gan Fenter Iaith Sir Ddinbych i gefnogi cais am gymorth ariannol gwerth £945.00.
- 11. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL GAN GYLCH TI A FI RHUTHUN**
Ystyried cais am gymorth ariannol gwerth £500.00 gan Gylch Ti a Fi Rhuthun.
- 12. GRŴP TWRISTIAETH BYSIAU MOETHUS SIR DDINBYCH**
Ystyried gwahoddiad i gynrychiolydd Cyngor Tref Rhuthun gymryd rhan mewn taith gynefino i gyrchfan sy'n croesawu bysiau, Betws y Coed, ar 28 Chwefror. Bydd yr ymweliad yn cynnwys sgwrs gyda George Brooks, Rheolwr Rheoli Cyrchfan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – a fydd yn mynd trwy'r camau gweithio mewn partneriaeth i sicrhau statws croesawu bysiau ynghyd â thaith o gwmpas y dref.
- 13. CASTELL RHUTHUN – GWAITH SEFYDLOGI BRYG GAN CADW**
Derbyn llythyr oddi wrth Will Davies, Arolygydd Henebion CADW, Gogledd Ddwyrain Cymru, ynghylch y gwaith sefydlogi brys i gysylltffuriau Castell Rhuthun.
- 14. AELODAETH UN LLAIS CYMRU 2017-18**
Ystyried a yw Cyngor Tref Rhuthun am ymaelodi ag Un Llais Cymru yn 2017-18 am ffi sy'n cynnig 50% o ostyngiad, sef £393.50.
- 15. ANFONEB AM GYFRANIAD I GYNGOR SIR DDINBYCH TUAG AT GYNNAL CANOLFAN GREFFT RHUTHUN**
Cymeradwyo talu'r cyfraniad cytunedig i Gyngor Sir Ddinbych tuag at gynnal Canolfan Grefft Rhuthun yn 2016/17, swm o £30,000.00.
- 16. DIFFIBRILIWR AT DDEFNYDD Y GYMUNED**
Ystyried Cyngor Tref Rhuthun yn prynu diffibriliwr at ddefnydd y gymuned, gan ddefnyddio arian o ymdrechion codi arian y Cynghorydd Emrys Wynne, er mwyn medru hawlio'r elfen TAW yn ôl.
- 17. DATGANIAD CYDYMFFURFIO – Y RHEOLEIDDIWR PENSIYNAU**
Cytuno ar lenwi ffurflen datganiad cydymffurfio Cyngor Tref Rhuthun.
- 18. ASESIAID RISG BLYNYDDOL**
Derbyn a chadarnhau'r Asesiad Risg Blynyddol.
- 19. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL**
Derbyn a chadarnhau'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol.
- 20. GOHEBIAETH**
Nodi'r eitemau gohebiaeth a ganlyn, ac unrhyw eitemau ychwanegol a dderbynnir cyn y cyfarfod:
- Llythyr yn nodi lansio ymgynghoriad ar y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol – Cadernid ac Adnewyddiad' oddi wrth Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
 - Neges e-bost yn gwahodd cydweithwyr i ddigwyddiadau rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd ynghylch y 'Fframwaith Cyflenwi'
 - Llythyr ynghylch digwyddiad Taith o gwmpas Cymru i dathlu hanner canfed blwyddyn Aren Cymru
 - Penodi Comisiynwyr i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru

- v. Penodi Cadeiryddion i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru
vi. Datganiad newyddion gan Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru am y Tîm Ockenden a'r corf gwarchod yn ymuno i adolygu gofal iechyd meddwl pobl hŷn.

21. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2017 (copi gwyrdd).

22. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwyo talu'r eitemau isod:

986	Clwb y Dyffryn	Cinio Sul Dinesig y Maer		£1,406.00
987	Zurich Municipal	Tâl yswiriant 2017-18		£4,438.44
988	TTS Group	Den plygu i'w ddefnyddio tu mewn / tu allan	*	£287.94
989	Cyngor Sir Ddinbych	Cyflenwi a gosod arwydd newydd ar yr A494	*	£300.00
990	Cynghorydd Heather Williams	Costau teithio i gyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru ym Mae Colwyn		£24.30
991	Cyngor Sir Ddinbych	Gwagu'r biniau baw cŵn yn fisol	*	£117.00
992	Gwasanaethau Coed Cymru	Cyflenwi, gosod a thynnu'r coed Nadolig ymaith	*	£1,434.00
993	Fineline	Ffeil blwch	*	£4.40
994	Swyddfa Archwilio Cymru	Archwilio Cyfrifon 2015/16		£230.10
D.U.	BT Business	Gwasanaeth band eang	*	£75.72
995	Clwb Rotari Rhuthun	Cyfraniad tuag at y Diwrnod Hwyl a Rasys Mulod		£500.00
996	Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen	Cyfraniad tuag at Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen 2017		£100.00
997	Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn	Cyfraniad tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017		£200.00
998	Cyngor Sir Ddinbych	Casglu, gosod a thynnu'r goleuadau Nadolig ymaith	*	£5,422.25
999	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£252.83
5000	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£90.00
5001	Swyddfa Cyngor ar Bopeth Rhuthun	Cyfraniad i swyddfa CAB Rhuthun		£2,000.00

(Mae'r eitemau wedi'u nodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £1,288.55)

23. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 27 Mawrth 2017.